

2010 Rhif 482 (Cy. 51)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol
(Dangosyddion Perfformiad a
Safonau Perfformiad) (Cymru)
2010**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu, o ran Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o 1 Ebrill 2010. Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008.

Drwy gyfeirio at yr Atodlenni, mae erthygl 2 yn nodi pa ddangosyddion perfformiad a safonau perfformiad a ddefnyddir i fesur perfformiad pa swyddogaethau.

Mae Atodlenni 1 i 4 a 6 i 9 yn rhoi manylion am y dangosyddion perfformiad rhagnodedig ar gyfer y gwahanol swyddogaethau fel a ganlyn:

Atodlen 1 - Gwasanaethau Cymdeithasol

Atodlen 2 - Tai

Atodlen 3 - Addysg

Atodlen 4 - Rheoli Gwastraff

Atodlen 6 - Trafnidiaeth/Priffyrdd

Atodlen 7 - Diwylliant a Chwaraeon

Atodlen 8 - Effeithlonrwydd Ynni

Atodlen 9 - Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 5 yn rhoi manylion am safonau perfformiad rhagnodedig ar gyfer swyddogaeth rheoli gwastraff.

2010 Rhif 482 (Cy. 51)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010

Gwnaed 24 Chwefror 2010

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 1 Mawrth 2010

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 8(1), 8(2), 50(1), 50(2) a 50(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(1), a hwythau wedi ymgynghori â'r personau hynny y mae adran 8(3) o'r Mesur hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â hwy, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010.

(2) Dim ond i awdurdodau gwella Cymreig sef cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys, ac yn ddarostyngedig i baragraff (3) daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(3) Daw Atodlen 5 i rym ar 1 Ebrill 2012 ac mae'n gymwys mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012, 1 Ebrill 2013 ac 1 Ebrill 2014.

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad

2. Pennir y dangosyddion perfformiad a'r safonau perfformiad mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir yn y tabl isod.

Y TABL

Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwella Cymreig a Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad y mesurir perfformiad y swyddogaethau hynny drwyddynt
Gwasanaethau Cymdeithasol
Pob dangosydd yn Atodlen 1
Tai
Pob dangosydd yn Atodlen 2
Addysg
Pob dangosydd yn Atodlen 3
Rheoli Gwastraff
Pob dangosydd yn Atodlen 4
Pob safon yn Atodlen 5
Trafnidiaeth/Priffyrdd
Pob dangosydd yn Atodlen 6
Diwylliant a Chwaraeon
Pob dangosydd yn Atodlen 7
Effeithlonrwydd Ynni
Pob dangosydd yn Atodlen 8
Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor
Pob dangosydd yn Atodlen 9

Dirymu

**3. Dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol
(Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru)
2008(1).**

Carl Sargeant

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a
Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Chwefror 2010

(1) O.S. 2008/503 (Cy.55).

ATODLEN 1

Erthygl 2

DANGOSYDDION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

SOCIAL SERVICES INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 1	Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd.	
DP 2	Cyfradd; (a) pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth; (b) pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth.	
DP 3	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.	
DP 4	Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol.	

DP 5	<p>Canran;</p> <p>(a) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed;</p> <p>(b) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed;</p> <p>(c) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed.</p>	
------	---	--

ATODLEN 2

Erthygl 2

DANGOSYDDION TAI

HOUSING INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 6	Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf.	
DP 7	Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl.	
DP 8	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.	
DP 9	Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.	

ATODLEN 3

Erthygl 2

DANGOSYDDION ADDYSG

EDUCATION INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 10	<p>Canran;</p> <p>(a) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a</p> <p>(b) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol,</p> <p>sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd.</p>	
DP 11	<p>Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.</p>	
DP 12	<p>Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau;</p> <p>(a) gan gynnwys eithriadau; a</p> <p>(b) heb gynnwys eithriadau.</p>	

ATODLEN 4

Erthygl 2

DANGOSYDDION RHEOLI GWASTRAFF

WASTE MANAGEMENT INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 13	<p>Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu</p>	

	tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall.	
DP 14	Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi	
DP 15	Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith.	

ATODLEN 5

Erthygl 2

SAFONAU RHEOLI GWASTRAFF WASTE MANAGEMENT STANDARDS

Rhif Safon/Standard Number	Safon perfformiad	Performance standard
SP 1	Isafswm o 52% o'r holl wastraff trefol wedi ei gasglu gan awdurdodau lleol i'w baratoi ar gyfer ei aildefnyddio, neu ei ailgylchu, neu (o ran deunyddiau biowastraff a wahanir yn eu tarddle) ei gompostio (gan gynnwys unrhyw drawsffurfio arall drwy gyfrwng prosesau biolegol).	

ATODLEN 6

Erthygl 2

DANGOSYDDION TRAFNIDIAETH/PRIFFYRDD TRANSPORT/HIGHWAYS INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 16	Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws.	.

ATODLEN 7

Erthygl 2

DANGOSYDDION DIWYLLIANT A
CHWARAEON

CULTURE AND SPORT INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 17	Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.	
DP 18	Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.	

ATODLEN 8

Erthygl 2

DANGOSYDDION EFFEITHLONRWYDD YNNI

ENERGY EFFICIENCY INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 19	Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig.	

ATODLEN 9

Erthygl 2

DANGOSYDDION Y BUDD-DALIADAU TAI A
BUDD-DALIADAU'R DRETH GYNGOR

HOUSING BENEFIT AND COUNCIL TAX
BENEFIT INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
DP 20	Yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd a rhai'n gysylltiedig ag	

	amgylchiadau wedi newid o ran Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor.	
DP 21	Y nifer o weithiau y mae amgylchiadau'n newid sy'n effeithio ar hawl cwsmeriaid i gael Budd-daliadau Tai neu Fudd-daliadau'r Dreth Gyngor o fewn y flwyddyn.	

